Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ

029 20 405 499

post@ysgolplasmawr.cymru

@YsgolPlasmawr

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ

029 20 405 499

post@ysgolplasmawr.cymru

@YsgolPlasmawr

Headteacher: Mr John D Hayes

Rhagfyr 4ydd, 2020

Annwyl riant / warcheidwad,

Thema'r gwasanaeth ysgol gyfan fore Llun diwethaf oedd balchder, ac rwy'n falch iawn o'r ffordd y mae cymuned yr ysgol wedi cyd-dynnu dros yr wythnosau diwethaf i gadw achosion COVID-19 yn yr ysgol yn isel iawn. Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr eich cydweithrediad wrth ymateb i'r cais i gadw eich plant gartref os ydynt yn dangos unrhyw fath o anhwylder, gan wirio nad oeddent yn datblygu symptomau COVID-19 cyn iddynt ddychwelyd i'r ysgol. Rwyf am ddiolch i'r rhieni hynny sydd wedi eu galw i'r ysgol ar fyr rybudd i gasglu eu plant ar ôl iddynt arddangos symptomau yn yr ysgol, ac rwy'n werthfawrogol o'ch cefnogaeth pan fu'n rhaid i ni ofyn i garfannau o ddisgyblion hunanynysu neu weithio gartref. Fy ngobaith yw y bydd pawb yn medru mwynhau Nadolig teuluol iach a gwyliau haeddiannol ymhen ychydig wythnosau.

Fe wnes i siarad â'r ysgol gyfan fore Llun diwethaf trwy alwad Teams i bob ystafell ddosbarth, gan bwysleisio i'r disgyblion bwysigrwydd ein rheolau a'n gweithdrefnau COVID-19. Roedd yn gyfle amserol i mi egluro wrthynt pam mae'r rheolau yn eu lle a'r peryglon posib sydd yn codi os bydd unigolion yn herio'r rheolau COVID-19. Mae nifer fawr o aelodau cymuned yr ysgol yn fregus o ran salwch ac yn bryderus am ddal y feirws. Mae nifer o aelodau staff yn teimlo eu bod yn agored i niwed ac o dan fygythiad os nad yw'r rheolau'n cael eu parchu. Yn anffodus, fe fydd yn rhaid i mi ddilyn llwybr cosb os bydd unigolion yn fwriadol yn herio ein rheolau COVID-19 yn gyson.

Mae'r rheol ar wisgo gorchudd wyneb yn un orfodol o fewn adeiladau'r ysgol, ac mae hyn yn cael ei argymell yn gryf ar gyfer y tu allan hefyd. Mae'n parhau i beri pryder mawr i mi fod cymaint o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn ddyddiol heb orchudd wyneb neu yn eu colli yn ystod y dydd! Plîs allwch chi sicrhau bod eich plentyn yn gadael y tŷ yn y bore gyda gorchudd wyneb addas?

Fe fyddaf yn monitro ein sefyllfa staffio yn ofalus dros y dyddiau nesaf. Mae yna nifer gynyddol o staff yn absennol o'r ysgol am resymau amrywiol, gan gynnwys salwch, yr angen i hunanynysu, gofalu am eu plant sydd yn hunanynysu, a rhesymau eraill. Yn naturiol, mae'n anodd cael gafael ar athrawon cyflenwi ar hyn o bryd. Os bydd y sefyllfa'n gwaethygu, mae'n bosib y bydd yn rhaid imi weithredu cynllun fyddai'n gofyn i flwyddyn gyfan o ddisgyblion aros gartref o'r ysgol ar ddiwrnod penodol fel bo digon o staff ar gael yn yr ysgol i staffio'r ysgol yn ddiogel.

Isod fe welwch rai o ddigwyddiadau'r bythefnos nesaf:

07.12.20: Diwrnod Her. Y 6ed dosbarth yn gweithio gartref.
10.12.20: Noson rieni Blwyddyn 13. Cyfarfodydd trwy Teams. Daw rhagor o fanylion maes o law.
17.12.20: Cyngerdd Nadolig rithiol.
18.12.20: Diwedd tymor yr hydref.
04.01.21: Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd. Dim ysgol i'r disgyblion.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

Gofynnir yn garedig i chi gysylltu â'r ysgol yn syth os yw eich plentyn neu unrhyw aelod o'r teulu'n profi'n bositif am COVID-19. Bydd angen i bob aelod o'r teulu hunanynysu am 14 diwrnod o bryd cychwynnodd y symptomau. Cysylltwch drwy ffonio'r swyddfa yn ystod oriau ysgol neu e-bostiwch y wybodaeth at post@ysgolplasmawr.cymru. Bydd angen i ni weld copi o'r neges fyddwch chi wedi ei dderbyn yn cadarnhau'r canlyniad positif. Mae unrhyw un sy'n profi'n bositif i COVID-19 yn rhydd i ddychwelyd i'r ysgol ar yr 11eg diwrnod ar ôl i'w symptomau gychwyn, ac mae'r rheiny sy'n hunanynysu am 14 diwrnod yn rhydd i ddychwelyd i'r ysgol ar y 15fed diwrnod ar ôl eu cyswllt olaf gyda'r achos positif.

Cyfeiriwch at y cwestiynau cyffredin a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol, sy'n rhoi canllawiau clir ar sicrhau ein bod yn cadw ein disgyblion, ein staff a chymuned ehangach yr ysgol yn ddiogel: https://www.caerdydd.gov.uk/cwestiynau-cyffredin-i-rieni-a-disgyblion

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.
John Hayes
(Pennaeth)

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

December 4th, 2020

Dear parent / guardian,

The theme of the whole-school assembly on Monday morning was 'pride', which is a theme that we return to repeatedly in school. I am extremely proud of the way in which the whole school community has co-operated over the past few weeks to ensure that the number of positive COVID-19 cases has, fortunately, remained extremely low. I have appreciated greatly your response to my request to keep your children at home if at all unwell and to check whether they have any COVID-19 symptoms before sending them back to school. I would like to thank those parents who've been called to the school at short notice to collect their child as a result of their displaying COVID-19 symptoms whilst at school, and I've also been extremely appreciative of the support we've received from parents when I've had to ask cohorts of pupils to work from home or to self-isolate. My sincere hope is that everyone will be able to enjoy a healthy and well-deserved Christmas holiday in a few weeks' time.

I spoke to the whole school on Monday morning through a Teams call to every classroom. My intention was to reinforce the importance of maintaining our COVID-19 rules and protocols. It was a timely opportunity for me to explain the reasons behind all our rules and the dangers of ignoring those rules. Several members of our school community have underlying health conditions and are extremely anxious about catching the virus, and several members of staff feel vulnerable and threatened when others ignore the COVID-19 rules. Unfortunately, I will have to enforce sanctions if individuals regularly challenge our school COVID-19 rules.

The wearing of face coverings is mandatory within school buildings and is highly recommended outside. I still can't believe that we have pupils who arrive at school without a face covering or who manage to lose a few during the school day. Please can you ensure that your child has an appropriate face covering ready for school when they leave the house in the morning?

I will be monitoring our staffing situation carefully over the next few days. An increasing number of staff are absent due to a host of reasons, including illness, self-isolation, personal childcare due to self-isolation in primary schools, and for other reasons. It is difficult to appoint supply staff given the current situation in schools. If the situation deteriorates further, I may have to implement a plan where different year groups are directed to work from home on different days. This would give us the necessary number of staff to safely staff the school on a daily basis.

Below, you will find a list of events arranged for the next fortnight:
07.12.20: Challenge day. The 6th form will be working at home.
10.12.20: Year 13 parents evening on Teams. Further details will be provided prior to the event.
17.12.20: Virtual Christmas concert.
18.12.20: End of autumn term.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

04.01.21: INSET day. No school for pupils.

I would kindly ask you to inform the school as soon as possible if your child or any member of your household receives a positive COVID-19 test result. If this occurs, all members of the household are required to self-isolate for 14 days from the onset of the symptoms. Please contact the school office during school hours, or otherwise e-mail: post@ysgolplasmawr.cymru. We will need to receive a copy of the confirmation text or e-mail regarding the positive test. Individuals who test positive for COVID-19 are allowed to return to school on the 11th day from the onset of their symptoms, and those who have been self-isolating for 14 days are allowed to return to school on the 15th day from their last known contact with the positive case.

I would like to remind you of the importance of following the correct processes should a pupil or family member be required to self-isolate due to showing symptoms of COVID-19 or if anyone in the household is awaiting a test result. Please refer to the FAQs provided by the Local Authority, which provide clear guidelines on keeping our pupils, staff and the wider school community safe:
https://www.cardiff.gov.uk/covidschoolfaqs

Thank you for your continued support.

John Hayes
(Headteacher)